Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Y Gangen Rheoli Tir yn Gynaliadwy
Yr Is-adran Amaeth a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

30 Hydref 2014

Annwyl Syr/Madam

**Ymateb i Ymgynghoriad: Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (WG22807)**

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfansoddiad a swyddogaethau Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru. Deallwn y bydd y Panel yn cefnogi gweithrediad y diwydiant amaethyddol trwy fynd i'r afael â heriau allweddol, er enghraifft prinder sgiliau a llafur, effeithiau newid yn yr hinsawdd a tharfu posibl ar y gadwyn cyflenwi bwyd.

Nodir ein hymatebion manwl i gwestiynau'r ymgynghoriad isod.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, awdurdodau lleol a chymunedau i helpu i roi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith. Rydym yn arddel dull ar lefel yr ecosystem i hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Rheoli tir yn gynaliadwy yw un o'r heriau mwyaf mae Cymru'n eu hwynebu. Mae sicrhau bod arferion rheoli tir yn dod â manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i'r economi wledig a phobl Cymru'n hanfodol. Bydd yn galw am gefnogi arferion rheoli tir sy'n canolbwyntio nid yn unig ar gynhyrchu bwyd a ffibr, ond hefyd ar ddarparu'r gyfres lawn o wasanaethau ecosystem sy'n hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol diogel, llewyrchus ac iach i holl ddinasyddion Cymru.

Bydd mabwysiadu dull ar lefel yr ecosystem o reoli tir yn gynaliadwy o fudd i ddinasyddion Cymru ac yn cyflawni amrywiaeth o flaenoriaethau cydategol o eiddo’r Deyrnas Unedig a’r Undeb Ewropeaidd. Mae’r rhain yn cynnwys twf economaidd, cydlyniant cymdeithasol, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a pherygl llifogydd, y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, a bodloni gofynion y Cyfarwyddebau Cynefinoedd, Fframwaith Dŵr, Dŵr Ymdrochi, Dŵr Yfed a Nitradau.

Bydd gweithlu amaethyddol hyfforddedig a brwdfrydig yn hanfodol i weithredu’r dull integredig o reoli adnoddau naturiol y mae ei angen i fod yn sylfaen i system cynhyrchu bwyd gynaliadwy yn y tymor hirach. Gall y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth gynorthwyo i gyflawni’r amcan hwn trwy hybu datblygiad gyrfa â strwythur priodol ar draws y diwydiant. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar y ffordd orau i gymhwyso egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy ar lefel y fferm unigol. Gallai dull o’r fath wneud cyfraniad sylweddol i’r gwaith o greu economi wledig fwy llwyddiannus ac amgylchedd iachach yng Nghymru.

**CWESTIYNAU ALLWEDDOL:**

**I. Sut ydym ni’n sicrhau bod y Panel yn cael cynrychiolaeth gytbwys o bob rhan o’r diwydiant? Rhestrwch y sefydliadau, neu’r math o sefydliadau y credwch fyddai’n cyfrannu’n gadarnhaol tuag at waith y Panel.**

I gynorthwyo’r Panel â’r gwaith o gynghori ar yr ystod lawn o heriau allweddol mae’r diwydiant amaethyddol yn eu hwynebu, bydd yn bwysig sicrhau y caiff amrywiaeth fawr o fuddiannau eu cynrychioli. Gellid gwneud hyn trwy gynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth fawr o sefydliadau amaethyddol (cyrff sector megis Hybu Cig Cymru a’r NSA yn ogystal ag undebau amaethwyr) ynghyd â LANTRA (fel y corff Sgiliau Sector ar gyfer diwydiannau’r tir a’r amgylchedd) a sefydliadau addysgol perthnasol megis IBERS Pwllpeirian.

**II. Sut allai’r Panel gynyddu nifer y newydd-ddyfodiaid sy’n ymuno â’r diwydiant?**

Gallai’r Panel gynyddu nifer y newydd-ddyfodiaid trwy gynghori ar ddyluniad cynlluniau perthnasol o dan Gynllun Datblygu Cymru Wledig a thrwy dynnu sylw at enghreifftiau o arfer gorau.

Efallai y bydd yn briodol i aelodau’r Panel feithrin cysylltiadau anffurfiol gyda’r Byrddau Cyflogau Amaethyddol yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill yn y Deyrnas Unedig.

**III. Amlinellwch sut y gallai gwaith y Panel gyfrannu at ddatblygu sgiliau parhaus a phroffesiynoli’r diwydiant amaethyddol yng Nghymru.**

Dylai fod gan y Panel nod strategol a bennir yn glir o hybu hyfforddiant a datblygiad sgiliau parhaus i’r rheiny sy’n gweithio yn y diwydiant amaethyddol yn ogystal â chynghori ar y mecanweithiau y mae eu hangen i sicrhau bod nifer ddigonol yn manteisio arnynt. Fel rhan o’i swyddogaethau ehangach sy’n ymwneud â gweithrediad y sector amaethyddol bydd angen i’r Panel fynd i’r afael â’r heriau ehangach sy’n codi o gysyniad rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig.

Dylai datblygu dealltwriaeth glir o’r ffordd mae defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth yn sylfaen i gynaliadwyedd cynhyrchu bwyd yn y tymor hir fod yn rhan allweddol o

DRAFT

ddatblygiad sgiliau parhaus. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar reoli tir yn gynaliadwy (yn enwedig y ffordd orau i gymhwyso'r egwyddorion ar lefel y fferm unigol).

Bydd angen i'r Panel feithrin cysylltiadau cryf gyda'r sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd angen i gynrychiolwyr o ysgolion, y sectorau addysg bellach ac uwch a darparwyr hyfforddiant perthnasol ymgysylltu â gwaith y Panel gan y bydd dyfodol amaethyddiaeth a sectorau tir cysylltiedig megis coedwigaeth a thwristiaeth yn dibynnu ar y gwaith cyfeirio gyrfaol a ddarperir gan y sefydliadau hyn yn ogystal â'r sgiliau a'r hyfforddiant maent yn eu darparu. Bydd y sector addysgol hefyd yn chwarae rhan fawr mewn denu newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth yn ogystal ag adeiladu ar sgiliau a phrofiad sy'n bodoli eisoes.

Mae rheoli tir yn gynaliadwy'n golygu cydbwyso cynhyrchu amaethyddol gyda gwasanaethau darparu a chefnogi eraill megis bioamrywiaeth, cyflenwad parhaus o wasanaethau ecosystem a lles cymunedau gwledig. Mae angen iddo gael ei gefnogi gan systemau cyfnewid gwybodaeth amrywiol sy'n manteisio ar wybodaeth wyddonol ac ar wybodaeth leol, yn gyson ag egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy. Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru weld cysylltiadau sefydledig gyda sectorau tir eraill megis coedwigaeth.

**IV. Sut allai'r Panel fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector amaethyddol a defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael er mwyn cefnogi gweithrediad busnesau a'r diwydiant yn ehangach yng Nghymru?**

Bydd gan y Panel ran hollbwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â nifer o heriau, yn enwedig proffil oedran y gweithlu amaethyddol; y nifer sy'n manteisio ar dechnoleg newydd; arweinyddiaeth a rheolaeth; olyniaeth ffermydd; sgiliau ariannol/busnes; rôl rheoleiddio; effaith y newid yn yr hinsawdd a'r angen i reoli tir yn fwy cynaliadwy. Efallai y bydd hefyd yn gallu chwarae rhan allweddol wrth adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd sy'n bodoli eisoes megis: sgiliau cadarn o ran hwsmonaeth a'r tir; cysylltiadau â chymunedau gwledig; galw gan brynwyr am gynnyrch lleol a manteision datblygu dull integredig sy'n cynorthwyo ffermwyr i ddatblygu eu busnesau ac ar yr un pryd gwella eu perfformiad amgylcheddol. Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru weld cydweithredu cryfach rhwng cymunedau ffermio a sectorau rheoli tir eraill a byddai ganddo ddiddordeb mewn gweithio gyda'r Panel, Llywodraeth Cymru ac eraill i alluogi hyn.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cyfle i drafod gydag aelodau'r Panel y ffordd orau i wreiddio cysyniad rheoli tir yn gynaliadwy ar bob lefel yn y diwydiant; cryfhau'r cysylltiadau rhwng rheoli busnes amaethyddol llwyddiannus a rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig.

**Cwestiwn V.**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru eisiau codi unrhyw faterion ychwanegol mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn.

Mae croeso i chi gysylltu â Dylan.L.Williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
os ydych eisiau trafod unrhyw agwedd ar ein hymateb yn fanylach.

Yn gywir,

**CERI DAVIES**
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio
Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Ffôn /Tel: (029) 20466045
Ffôn symudol / Mobile: 07818008865
E-bost / E-mail: ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk

DRAFT